

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Mawrth 14, 2017 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, Janet Edwards, Eirlys Roberts, Carwyn Evans a John Hughes. Hefyd Henry M. Edwards a Peredur Jenkins.

**1. Ymddiheuriadau:** Gareth Ellis a Llinos Williams.

**2. Datgan diddordeb:**

Roedd Geraint Rowlands yn datgan diddordeb ynglŷn â cheisiadau cynllunio yn Eitem 7.a. ii, iii.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 10, 2017**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 10, 2017**

a. Eitem 10.a. Galwad ffôn (19/1/2017) oddi wrth Mrs Rebecca Lloyd yn diolch am ysgubo ochrau ffordd trwy Bontddu.

b. Eitem 10.a. Llythyr ateb (13/2/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi gwybod mae ysgubo gwastraff A496 ar eu rhaglen.

Penderfynwyd diolch y Gwasanaeth am eu gwaith o ysgubo ffordd Bontddu a Taicynhaeaf.

**5. Materion Ariannol**

a. Bil (3/2/2017) am £272.40 oddi wrth Swyddfa Archwiliad Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2015/16 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Ceisiadau am gymorth ariannol:

Shelter Cymru, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Y Groes Goch Brydeinig, Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru, Cyngor ar Bopeth Gwynedd, Neuadd Bentref Bontddu, Elusen Ambiwylans Awyr Cymru, Neuadd Bentref Llanelltyd.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MAWRTH 14, 2017

Mewn llythyr (Ionawr 2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan adran 137(1) ac (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2016-17. Maent yn rhoi gwybod gall Cyngorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 £7.42, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn  $£7.42 \times 378 = £2,804.76$ .

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Cyngor ar Bopeth, Gwynedd a Môn - £100  
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru - £50  
Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau - £50  
Ysgol Feithrin Dolgellau - £50  
Ambiwlans Awyr Cymru - £100  
Neuadd Bentref Bontddu: - £450  
Neuadd Bentref Llanelltyd - £450  
Cyfanswm: £1,250

Gofynnwyd i'r sefydliadau oedd angen cymorth ariannol am gais a mantolen.

c. Balans yn y banc ar 29 Ionawr, 2017: £7,574.01.

ch. Incwm ar hyn o bryd: £10,577.55

Gwariant ar hyn o bryd: £8,912.28 (gan gynnwys bil Swyddfa Archwiliad Cymru)  
Gwariant ar Roddion fel y llynedd: £2,750.00  
Felly bydd y Cyngor wedi gorwario £1,084.73 (heb gynnwys taliadau annisgwyl bydd angen eu gwneud).

d. Llythyr (2/2/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2017 / 2018. Tâl Aelodaeth yw £84.

Penderfynwyd talu'r tâl aelodaeth.

dd. Bil (6/2/2017) am £35.00 oddi wrth Un Llais Cymru am Elfed ap Gomer fod yn bresennol ar gwrs Cyllid Llywodraeth Leol.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Derbyniwyd (14/2/2017) siec am £550.00 (claddedigaeth bellach) oddi wrth Glyn Rees & Son. Taliad at Dilys Meredith.

f. Bil (15/02/2015) am £147.95 oddi wrth Dŵr Cymru at tâl gwasanaethu Toiledau Cyhoeddus Bontddu. Mae'n cael ei dalu drwy DD. (Bil am yr un cyfnod flwyddyn ddiwethaf oedd £82.47, yn 2015 y taliad oedd £134.61).

ff. Balans yn y banc ar 29 Chwefror, 2017: £7,976.06.

Llofnod:

Dyddiad:

2

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MAWRTH 14, 2017

g. Bil (14/3/2016) am £350 oddi wrth Glyn Rees & Son am ail agor bedd ar gyfer gwasanaeth 17/2/2017. (Mr John A. Owen oedd wedi gwneud y gwaith).

Penderfynwyd talu'r bil.

h. Llythyr (10/3/2017) oddi wrth Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, Cyngor Gwynedd yn ymwneud â Chasglu Gwastraff Masnachol o'r fynwent yn 2017/2018. Os am wasanaeth fel y llynedd, bydd y casgliad yn wythnosol gydag un bin olwyn 240ltr drwy'r flwyddyn, y ffi i'w dalu yw £307.00 (y swm llynedd oedd £292.00). Bydd anfoneb am y swm yn cael ei anfon inni.

Penderfynwyd derbyn y taliad sydd angen ei wneud, a rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd nid yw y bin yn cael ei wagu'n wythnosol fel sydd angen ei wneud.

i. Penderfynwyd anfon llythyr i Mr John D. Roberts i ofyn iddo yn swyddogol, fel mae BDO ei angen, os mae am barhau i fod ein Harchwiliwr Mewnol.

j. Penderfynwyd apwyntio Mr Huw Jones, swyddog gydag Undeb Amaethwyr Cymru, yn ein Swyddog Ariannol Cyfrifol. Fel cynghorydd, nid yw Elfed ap Gomer yn gymwys i wneud y swydd.

## **6. Mynwent Llanelltyd**

a. Llythyr (19/1/2017) oddi wrth Y Parchedig Tim Webb, Ficer Ardal Weinidogaeth Bro Cymer, yn rhoi gwybod i Dr Julian Roberts mai nid Eglwys Cymru sy'n gyfrifol am y fynwent i roi barn ar leoliad beddi ei fam a'i chwaer ond y Cyngor Gymuned.

Yn y gorffennol rhoddodd y Clerc manylion i Dr Roberts am y fynwent iddo wneud archwiliad i benderfynu lleoliad y beddi. Nid yw'r Clerc wedi cytuno neu anghytuno gyda lleoliad mae Dr Roberts wedi awgrymu. Talodd Julian Roberts £60 ar 18/5/2016 am y gwaith ymchwil y Clerc.

Gwnaeth Dr Roberts a'i frawd gwaith trwyadl i ddod o hyd lleoliad y beddi. Maent o'r farn bod un bedd rhwng beddi Margaret Crosland Seabrooke (B/011) a John Ruthven Hall (B/013a). Nid oes gofeb ar fedd B/012. Mae'r bedd arall rhwng beddi Norman Cheshire (B/043) a Ludovic Nanney Williams (B/045). Nid oes gofeb ar fedd B/044. Mae beddi B/12 a B/044 gyferbyn â'i gilydd.

Mae'r Clerc o'r farn mae posibilrwydd bod lleoliad beddi'r fam a'i chwaer yn gywir. Rhoddwyd gwybod i Dr Roberts (14/2/2017) nid oedd gwrthwynebiad i roddi cofeb ar a beddi.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Meurig Ashton mae angen tocio'r gwrych y fynwent, hynny yw, yr ochr sy'n wynebu'r fynwent.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

### a. Ceisiadau Cynllunio:

i. NP5/65/320B. Gosod tanc LPG 2250 Litr. Tir ger Sgubor, Ty'n Lon Uchaf, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (18/1/2017).

ii. NP5/60/E150. Ymgynghoriad o dan Adran 37 o'r Ddeddf Trydan1989 i ail-adeiladu gwifrau drydan 11KN uwchben. Rhan o'r wifren cyflenwad trydan rhwng Dolgellau a Maentwrog.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/2/2017).

iii. NP5/60/E151. Ymgynghoriad o dan Adran 37 o'r Ddeddf Trydan1989 i ail-adeiladu gwifrau drydan 33KN uwchben. Rhan o'r wifren cyflenwad trydan rhwng Dolgellau a Maentwrog.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/2/2017).

iiii. NP5/65/344. Newid defnydd o dy (Defnydd Dosbarth C3) i hostel (sui generis). The Bar, Farchynys Court, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (27/2/2017).

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. NP5/65/320B. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Gosod tanc LPG 2250 litr, Tir ger Sgubor, Ty'n Lon Uchaf, Bontddu.

ii. NP5/65/322A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Codi lefel y to i'r adain Dwyrain a ports, adnewyddu to y cowlas mewn llechi, gosod 3 ffenestr to, codi wal gynnal carreg a teras. Borth Cottage, Bontddu.

## **8. Gohebiaeth**

a. Llythyr (12/1/2017) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd yn gofyn am farn cynghorau cymuned ar y broses o ymchwiliad craffu trefniadau cynllunio Cyngor Gwynedd. Amgáu mae 6 cwestiwn i ni eu hystyried.

Nid yw'r mater yn berthnasol i ni.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MAWRTH 14, 2017

b. Llythyr (23/1/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Maent eisiau gwybod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'r asedau sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor. Amgáu mae holiadur i'w lenwi.

Penderfynwyd cwblhau'r holiadur.

c. Llythyr (31/1/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Maent yn rhoi gwybod bydd gwaith amnewid camfa gyda giat, clirio tyfiant a gosod arwyddbyst ar Lwybr yn Cwm Mynach. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn wirfoddol gan Gerddwyr.

Mae'r llwybr, h.y. Rhif 59, yn mynd o Garth-gell ac i gyfeiriad Cwm-mynach-isaf.

ch. Llythyr (2/2/2017) oddi wrth Un Llais Cymru gan gynnwys:

a. rhybudd yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar Chwefror 23, 2017 am 7.00yh. Amgáu mae agenda'r cyfarfod.

b. Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd oedd ar Tachwedd 23, 2016.

c. Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn Llandrindod ar Rhagfyr 9, 2016.

d. Llythyr (8/2/2017) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn rhoi gwybod maent am gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd. Maent am ystyried maint Cyngor Gwynedd, a nifer a ffiniau ei ranbarthau etholiadol yn seiliedig ar y patrwm presennol o gymunedau a wardiau cymunedol. Os mae sylwadau, maent eu hangen cyn Mai 31, 2017.

dd. Llythyr (6/3/2017) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd. Mae'r llythyr ynglŷn ag Adolygiad y Comisiwn Ffiniau Etholaethol yng Ngwynedd. Amgáu mae copi o wybodaeth cafwyd yng nghyfarfodydd diweddar y Comisiwn.

e. Llythyr (15/2/2017) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth ariannol. Amgáu oedd mantolen.

f. Llythyr (9/2/2017) oddi wrth Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru. Amgáu mae mantolen. Maent angen cymmorth ariannol.

ff. Llythyr (23/2/2017) oddi wrth Cyngor ar Bopeth Gwynedd. Amgáu mae mantolen. Maent angen cymmorth ariannol.

g. Llythyr (21/2/2017) oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu. Amgáu mae mantolen. Maent angen cymmorth ariannol.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MAWRTH 14, 2017

- h. Llythyr (13/3/2017) oddi wrth Neuadd Bentref Llanelltyd. Amgáu mae mantolen. Maent angen cymmorth ariannol.
- i. Llythyr (11/3/2017) oddi wrth Elusen Ambiwllans Cymru. Amgáu mae mantolen. Maent angen cymmorth ariannol.
- j. Llythyr (15/2/2017) oddi wrth Swyddog Gweithredol Llesiant, Cyngor Gwynedd. Amgáu mae gwybodaeth am wasanaeth DEWIS Cymru sef wefan Llesiant. Maent angen ei arddangos mewn lle amlwg. Amgáu mae ffurflen i'w chwblhau.
- l. Llythyr (22/2/2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae rhestr o gyrsiau sydd ar gael. Y cwrs lleol yw Cynllunio Cymunedol / Lle ac mae yn Canolfan Hen Blas, Bala ar ddydd Mercher 15/3/2017 am 6.30yh. Cost y cwrs yw £35.
- ll. Llythyr (Chwefror 2017) oddi wrth Swyddog Canlyniadau, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Etholiadau Cyngorau Tref / Cymuned.

Bydd etholiadau Cyngor Sir a'r Cyngorau Tref / Cymuned yn cael eu cynnal ar Mai 4 2017.

Amgáu mae:

- i. Papur Enwebu i bob aelod presennol sy'n dymuno bod yn ymgeisydd yn yr etholiad. I gynorthwyo gyda chadarnhau enw a rhif yr Cynigydd ac Eilydd amgáu mae copi o'r Cofrestr Etholwyr.
- ii. Ffurflen Cydsyniad Ymgeisydd ar gyfer Enwebiad. Bydd angen ei dychwelyd i swyddfa'r Cyngor yn Dolgellau rhwng Mawrth 20 ac Ebrill 4. Ni ddylid ei dyddio cyn Mawrth 7.
- iii. Ffurflen Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl. Dylai ymgeiswyr sy'n sefyll dan enw plaid gwleidyddol bod gyda thystysgrif a roddwyd gan swyddog enwebu cofrestredig y blaid honno.
- iiii. Copi o'r Rhybuddion Etholiad sydd i'w arddangos o Mawrth 17.
- v. Llythyr (Ionawr 2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Mae'r llythyr i bob ymgeisydd yn llongyfarch hwy am sefyll yn yr etholiad, ac maent angen gwybodaeth ganddynt.

m. Llythyr (7/3/2017) oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Amgáu mae llythyr oddi wrth y Comisiynydd i Liz Savile-Roberts AS yn gofyn am ei sylwadau ynglŷn â chynllun Heddlu Gogledd Cymru i gau'r ddalfa yn Nolgellau. Mae rhesymau cryf i gau y ddalfa (bydd orsaf yr heddlu yn parhau ar agor). Mewn llythyr ateb oddi wrth Liz Savile-Roberts mae hi'n gofyn am fwy o wybodaeth pam mae angen cau'r ddalfa. Mewn llythyr ateb iddi mae hi'n cael gwybod bydd cau y ddalfa yn golygu safiad o £0.3miliwn y flwyddyn i Heddlu Gogledd Cymru a bydd hyn yn golygu cynnydd o 2 Ringyll a 4 Cwnstabl ym Meirionnydd.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MAWRTH 14, 2017

n. Llythyr (28/2/2017) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Maent wedi cyhoeddi eu Hadroddiad Blynnyddol 2017/18 ac mae ar gael: <http://gov.wales/docs/dsilg/publications/localgov/170223-annual-report-cy.pdf>

o. Llythyr (Mawrth 2017) oddi wrth Rheolwr Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn. Maent wedi gwneud gwaith ymchwil i ddysgu a deall mwy am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwyllianol a sut eu gwella. Amgáu mae fersiwn drafft o asesiad Gwynedd ac maent angen ein barn arno cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol. Amgáu mae holiadur i roi ein barn ac maent ei angen cyn Ebrill 13, 2017.

### **9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

a. Mae Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn torri lawr ar ymoliadau mae staff gorfod ei wneud trwy'i gilydd i gael gwaith ei gario allan. Bydd hyn yn golygu bydd gwaith yn cael ei wneud yn gynt. Mae'n debygol bydd y broses yma yn cael ei wneud mewn adranau eraill o'r Cyngor.

b. Oherwydd bod costau Cyngor Gwynedd yn codi a gostyngiad yn y grant mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth bydd y dreth yn codi 2.8%.

c. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud yn Ysgol Llanelltyd yn dod i ben yn y Pasg.

ch. Bydd rhieni yn cael llythyr gan Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod pa ysgol bydd eu plant yn mynd.

d. Cafodd Carwyn Evans ei longyfarch ar ei dyrchafiad yn yr Ysgol.

dd. Estynnwyd llongyfarchiadau i Gethin Williams ar ei briodes yn ddiweddar.

e. Trafodwyd tir ac adeilad Ysgol Bontddu. Anfonwyd llythyr (11/1/2017) i Rheolwr Eiddo Gwynedd, Cyngor Gwynedd am wybodaeth ar y mater ond ni dderbyniwyd ateb.

### **10. Materion Brys**

a. Mae angen rhoi gwybod i Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, Cyngor Gwynedd bod gwastraff 'fly tipping' ar dir wrth yr afon a gyferbyn tai cyngor Swyn y Nant, Bontddu. Mae tri llun yn dangos y gwastraff.

b. Mae angen rhoi gwybod i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am y cwt haearn sydd wedi ei osod ar ochr y ffordd Swyn y Nant, Bontddu. Mae'r cwt wedi ei osod mewn lle anaddas. Mae llun yn dangos y cwt.

c. Nid yw eitem Unrhyw Fater Arall i gael ei gynnwys ar Agenda.

-----